"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD"

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

GOLYGYDD—
Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Aberdar

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA"

CYFROL LI
1951

Llandysul :
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION CYF., GWASG GOMER.

CYNNWYS

Achosion y Dirywiad Crefyddol, 194, 207.
Adre am Glonc, 124.
Arholiad yr Ysgol Sul, 165, 214.
Atgofion Siôn Ifan Siôn, 127.

Barddoniaeth, 10, 15, 34, 87, 88, 96, 131, 133, 154, 172, 199.
Beth am Yfory, 36.

Carw Coch a'i Eisteddfodau, Y, 3, 37, 221.
Claddu'r Iesu, 104.
Cofion Caredig (Gwilym Marles), 42.
Codwr Canu am 50 Mlynedd, 192.
Comiwnyddiaeth a Chrefydd, 174, 178.
Cornel y Cerddor, 5, 122.
Crwt o Gwrtnewydd, Y, 46.
Cwest yr Ugeinfed Ganrif, 8, 111.
Cwpwrth Llyfrau, Y, 167.
Cyrddau Blynyddol y Gymdeithas Gyffredinol, 86.
Cyrddau Chwarter, 76, 136, 158, 188, 222.

Damwain neu Enedigaeth Fraint, 32.
Davies, Dr. D. J., 22—26.
Dros y Border, 82.
Dysgu Cymraeg, 11.

Evans, R. M. (Miss), 215.

Fy Ngweinidog, 123.
Ffair Gyflogi, Y, 124.

Gair o Ganada, 6.
Gohebiaethau, 12, 37, 47, 89, 202.
Gwyl y Pasg yn Syra, 102.

Hen Dŷ Cwrdd (Aberdâr), 56, 61-70.
Hesgin, Fy Ngyrfa, 212.

Jenkins, E. O., 137—153, 162.
John Brynare, 130.

Llanrwst a'r Llinyn Mesur, 163, 186.
Llaw Ddiwyd a Gyfoethoga, 16.
Lloffion o Hen Lyfrau, 108.
Lluniau, 22, 27, 137, 157.

Mae'r Stori ar Led, 217.
Martineau, Harriet, 179.
Marwgofion, 18, 38, 52, 72, 91, 114, 134, 187, 218.
Morgan, H. H., 27.

Nodiadau'r Golygydd, 1, 21, 41, 81, 101, 121, 137, 173, 191, 206.
Newyddion yr Enwad, 19, 39, 55, 74, 116, 134, 155, 170, 203, 222.

Priodasau, 17, 38, 91, 133, 153, 185, 218.
Pryddest y Goron, 186.

Salmau'r Mynydd Eleni, 211.
Siwrne i'r Gymru Gymraeg, 183.

Tro i Dretegan, 112.
Tŷ Cwrdd y Plant, 213.

Williams, D. T., 157.

Yn ôl ac ymlaen, 158.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol li. IONAWR, 1951. Rhif 1.

Nodiadau'r Golygydd.

BLWYDDYN NEWYDD, DDEDWYDD DDA!

Gwasg Gomer, Yr Ymofynnydd a'r Genhinen.

Hanner can mlynedd yn ôl aeth Yr Ymofynnydd (yn iaith argraffwyr) i'w *wely* am y tro cyntaf yng Ngwasg Gomer. Fe hoffodd ei wely newydd ac fe aeth iddo ac fe gododd o hono bob mis byth er hynny. Bryd hynny rhaid oedd ei gysodi lythyren wrth lythyren â llaw, heddiw y mae dau beiriant cywrain yn ei fwrw ynghyd mewn byr dro. Ond byddwch yn llawenhau gyda mi fod y dwylo hynny a'i triniodd mor annwyl ac a'i dododd yn ei wely mor dyner hanner can mlynedd yn ôl yn dal i ofalu amdano o hyd. W. J. Jones (Sir Fôn) yn ddiau yw un o argraffwyr mwyaf crefftus yr alwedigaeth yng Nghymru a dymunwn ddiolch iddo fel enwad am ei waith da drosom ni. Y mae'n dal i deyrnasu yn y swyddfa a'i ysbryd mor ifanc ag ysbryd un o'r bechgyn sy'n cydweithio ag ef. Y mae'r penaethiaid a'r staff yma wedi cynorthwyo pob golygydd hyd eithaf eu gallu ar hyd yr amser. Hanner can mlynedd yn ôl, Yr Ymofynnydd oedd prif waith Gwasg Gomer go debyg ; heddiw, y mae yn un o ffyrmiau cyhoeddi llyfrau enwocaf Cymru ac y mae'r Ymofynnydd yn llawenhau o'r herwydd. Llawenydd mawr i bob darllenwr hefyd fydd clywed fod Cylchgrawn arall, un a fu'n annwyl iawn drwy Gymry benbaladr am hanner canrif wedi ail gychwyn ei yrfa o'r Swyddfa yma. *Y Genhinen*, yn ddiamau oedd cylchgrawn gwerin Cymru, ac y mae arwyddion sicr yn y rhifyn cyntaf fod yr hen draddodiadau i'w cadw'n ddiogel eto. Archebwch *Y Genhinen* newydd ar unwaith a chefnogwch yr ymdrech ganmoladwy yma i adfywio llên ein gwlad. Ym mysg pethau diddorol y Rhifyn Cyntaf y mae Pennod Gyntaf " Hunangofiant Sarnicol" a 64 tudalen o amrywion a manion at flas pawb. Meuryn a'r Parch. S. B. Jones yw'r Golygyddion. Pob hwyl iddynt !

Pris yr Ail Ryfel Byd.

Cyhoeddaf yn foel a heb ddweud gair pellach, ffigurau a gyhoeddwyd gan "The International Review of Diplomatic and Political Science, Geneva."

"Lladdwyd un filiwn ar hugain o ddynion ar faes y frwydr. Lladdwyd rhwng pymtheg ac ugain miliwn o fenywod, plant a hen bobl mewn cyrchoedd awyr. Anafwyd naw miliwn ar hugain a hanner i wahanol graddau. Un filiwn ar hugain a chwarter wedi eu halltudio a'u gyrru ar ffo o'u cartrefi. Chwalwyd deng miliwn ar hugain o gartrefi yn ulw a gadawyd can miliwn a hanner o bobl heb le i roi eu pen i lawr.

Yn ychwanegol gwariwyd digon o arian i roi tŷ gwerth £12,000, gwerth £4,000 o ddodrefn ac £20,000 mewn arian sych yn anrheg i bob teulu yn U.S.A., Canada, Awstria, Prydain, Eire, Rwsia a Belgiwm. At hyn byddai digon yn stôr i roi rhodd o £25,000,000 at lyfrgelloedd, £25,000,000 at ysgolion ac eto £25,000,000 at ysbytai pob tref dros 200,000 o boblogaeth drwy'r gwledydd yma." Fe'u gwariwyd i ladd a distrywio ac y mae'r bobl yn dlawd ac yn wynebu rhyfel arall. Na ddisgwylier gair o'i phlaid yn Yr Ymofynnydd.

Siars i Ymddiriedolwyr.

Daeth siars y Parch. Coram Davies i Ymddiriedolwyr newydd Ysgol ac Elusendy Stokes Croft i'm llaw yn ddiweddar a theimlaf nad drwg gwaith fyddai i ni wrando ar rai o'i eiriau. Dyma hwy yn y gwreiddiol rhag amharu dim ar eu neges :

> "You who are about to enter into this most sacred office of Trusteeship, will bear yourselves honourably and, with strong purpose and with clear conscience, carry out the duties that will, ere long, devolve on your shoulders. No man who has not Lewins Mead at Heart, has the moral right to deal with Trusts that have sprung out of the very heart of Lewins Mead . . . Do you, Gentlemen, think it right that Unitarian money should be managed by those who are no longer interested in Unitarian Churches ? To you, the Continuing Trustees, I would commend tonight, and it is the only right and proper advice to give, that such Bank Signatories as you should elect for Stockholding, should be faithful worshippers and subscribing members at Lewins Mead . . . Will you, Gentlemen, who are now recommended for Trusteeship, swear, as before God, that you will faithfully, honourably and unremittingly fulfil the duties which you are about to undertake. I myself take this and every other Trust most sincerely. They are a sacred charge."

Llunier i gall hanner gair.

"Y Carw Coch a'i Eisteddfodau."

ARAITH Mr. W. W. PRICE WRTH AGOR CWRDD CYNTAF "CYMDEITHAS Y CARW COCH" YN Y CAFE MONA, HYDREF 27, 1950.

YR wyf am eich llongyfarch ar sefydlu y gymdeithas lenyddol yma yn Aberdâr, ac y mae'n amlwg fod rhywun wedi cael gweledigaeth eglur wrth ei galw yn Gymdeithas y Carw Coch. Ni ellid enw mwy addas i Gymdeithas o'i bath yn Aberdâr o gofio beth wnaeth y gymdeithas a gasglai o gwmpas y Carw Coch yn Aberdâr gan mlynedd yn ôl. Bryd hynny yr oedd yn enwog drwy Gymru gyfan.

Nid dyma'r Gymdeithas gyntaf ; bu llawer o'i thebyg o ddirfawr help i ymgeleddu'r iaith ac i ymddiddori yn ein llên. Heblaw cymdeithasau yn y Gogledd, y Bala, Eifionydd, Llŷn, etc., fe gafwyd Cymdeithasau Dyfed—Caerfyrddin 1819—, Cymreigyddion Aberhonddu 1820, Aberystwyth 1822 ac Abergefenni 1834 yn enwog iawn. Enwog hefyd oedd Clic y Bont o Bontypridd 181— A dod yn nes gartref, pan oedd Aberdâr yn dechrau ymagor i ddiwydiant a masnach a'i phoblogaeth eto yn fach, yr oedd Merthyr yn brif tref Cymru am boblogaeth. Yno 'roedd gweithiau haearn Dowlais, Cyfarthfa, Penydarren a'r Plymouth. Yno yr oedd Cymru brwdfrydig dros yr iaith yn ffurfio cymdeithasau fel y Cymreigyddion, y Prydyddion, y Gomeriaid, y Rhyddymofynwyr, y Llenyddion, y Cymrodorion Dirwestol, y Brythoniaid, Cymdeithas Glennydd Taf ar adeg pan oedd estroniaid yn dylifo i mewn i'r gweithfeydd. Cwrddent yn y gwestai a 'long rooms' y tafarnau ac y mae dyled Cymru i'r Long Rooms yn ddyled mawr iawn. Cyn ffurfio un cymdeithas yng Nghwm Aberdâr yr oedd ein llenorion yn cystadlu yn Eisteddfodau Merthyr. Gwelwn enw Gwilym Ddu Cynon [Bedlwyn a Phantygerdinen] yn ennill ar Awdl "Y Goleuni" yno yn 1824. Gwelwn hefyd fod y Parch. Thos. Evans (Tomos Glyn Cothi) yn ennill ar "Gwladgarwch" yn Eisteddfod "Awenyddion Merthyr" yn 1825.

Y flwyddyn 1837 yw'r dyddiad cyntaf sydd gan D. M. Richards yn ei "Rhestr Eisteddfodau" am Eisteddfod yng Nghwm Aberdâr. Ond yn ôl *Seren Gomer* 1832 yr oedd Cymreigyddion Hirwaun-Wrgan yn cynnal cyfarfodydd, ac fe gynhaliwyd cyfarfod yn nhŷ Dafydd Llewelyn dan arwydd y "Brynhyfryd" (*Mount Pleasant Inn*) ar y 3ydd o Fehefin, 1833. Yr oedd Dafydd Llewelyn yn dad i Thos. Dafydd Llywelyn (Llywelyn Alaw) Telynor ac aelod o'r Hen Dŷ Cwrdd. Y mae hanes diddorol am y gŵr yma oblegid ef a aeth i weld James James ac Evan James o Bontypridd i'w hannog

i ddanfon alawon anghyoeddedig o'r eiddynt i Eisteddfod Genedlaethol Llangollen. Hoffodd y beirniad un o'r alawon yn y casgliad, enw'r alaw honno oedd "Hen Wlad Fy Nhadau."

Bu Eisteddfod yma yn 1837 yn y Mount Pleasant gyda Benjamin Lewis (Beni Tomos Henry) yn ysgrifennydd a'r Parch. John Jones gweinidog yr Hen Dŷ Cwrdd a Richard Williams (Gwilym Ddu Glan Cynon) yn feirniaid. Yr olaf oedd unig fardd cadeiriol y Cwm ar y pryd ac fe'i urddwyd yn Eisteddfod Aberhonddu yn 1822. Yr oedd yn dad i Howell Williams (Assistant Overseer hyd tua 1870) ac ef a gynorthwyodd gyda chyhoeddi gweithiau'r bardd talentog, Telynog, o Gwmbach.

Tua'r un adeg, 1837, daeth un William Williams i fyw i Harriet St. Gweithiwr cyffredin heb gael un awr o ysgol ddyddiol oedd ac yn enedigol o Gwm Nedd, tua Aberpergwm. Symudodd yn ieuanc i Dredegar ac oddi yno i Dregibwn, lle a adwaenir fel Llwydcoed heddiw. Priododd un o forwynion glân Morgannwg (5. 5. 1832), sef Margaret, merch Lewis John Rees. Fodd bynnag, gyda help ysgol nos a'r ysgol Sul daeth yn ddarllenwr mawr ac yn ŵr diwylliedig yn ymddiddori mewn pynciau crefyddol, llenyddol, cymdeithasol a pholitcaidd. Tua'r adeg yma yr oedd dadlau brwd ynghylch Siartiaeth ac fe gyhoeddwyd papur ym Merthyr, '*Udgorn Cymru*', i'w gefnogi, gyda'r William Williams yma ac amryw o aelodau yr Hen Dŷ Cwrdd yn ysgrifennu iddo. Galwai ei westy yn Harriet St. yn Stag Inn a thrwy hynny fe ddaeth yn enwog fel y "Carw Coch."

Yn y flwyddyn 1840, cynhaliwyd Eisteddfod yn hen neuadd y Farced, lle mae'r 'Town Hall' yn awr. Ym mysg yr enillwyr yr oedd Wm. Lewis (Cawr Dâr), Dafydd Williams (Alaw Goch), John Rees, Penydaren, ac enillodd Wm. Morgan (tad Dai o'r Nant) am ganu gyda'r delyn. Yna yn 1841 cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf yn y Stag Inn dan nawdd Rhyddymofynwyr Aberdâr. Ac ar ôl yr Eisteddfod hon ffurfiwyd cymdeithas dan yr enw "Cymreigyddion y Carw Coch," gyda Carw Coch, Alaw Goch (tad y Barnwr Gwilym Williams a pherchennog glofeydd), Eiddil Cynon, Cynonwyson ac eraill yn aelodau.

Yn Eisteddfod y Carw Coch 1846, Rees Hopkin Rees oedd y llywydd am y dydd, fe'i adwaenid yn ddiweddarach fel Rhys Ddall oblegid collodd ei olygon yn 1847. Yr oedd ef hefyd yn aelod yn yr Hen Dŷ Cwrdd ac yn un o gymwynaswyr cymdeithasol mwyaf Aberdâr yn ei amser. (Ef a fu'n gyfrifol yn fwy na neb am gael un o barciau harddaf Cymru i'r dre yma). Ymhlith y buddugwyr y tro yma yr oedd John Jones (Eiddil Cynon),

Yn Eisteddfod y Carw Coch, 1848, y llywydd oedd Alaw Goch a'r Is-lywydd oedd y Parch. Thos. Price, Calfaria a Ieuan Gwynedd, yn feirniad. Traddodwyd araith gan Iago Gwilym (James James,

1800—1979). Dyma'r tro cyntaf i weinidog anghydffurfiol heblaw gweinidogion yr Hen Dŷ Cwrdd gymryd rhan yn yr Eisteddfod. Edrychid arnynt fel lleoedd pechadurus hyd yma a felly nid amhriodol y gwnaethoch ethol gweindog Undodaidd arall yn llywydd y Gymdeithas newydd hon heno.

Yn 1850, cynhaliodd Cymreigyddion Llwydcoed Eisteddfod dan arwydd Arfau y Glowyr ond yr Eisteddfod bwysicaf i gyd oedd honno a gynhaliwyd yn y Stag Inn, Awst 29, 1853. Cyhoeddwyd y cyfansoddiadau a'r beirniadaethau o dan enw "Gardd Aberdâr" yn 1854. Enillodd y Carw Coch wobr bwysig am draethawd ar hanes y Cwm y tro hwn ond ysywaeth y mae'r llyfr yma'n rhyfedd o brin ac anodd ei gael bellach. Gellir mynd ymlaen i sôn am lawer o Eisteddfodau eraill a dweud am ran gwŷr fel Dewi Wyn o Essyllt, Evan James (Hen Wlad fy Nhadau) a Thos. Stephens, Merthyr ynddynt. Trwy weithgarwch y Carw Coch a'i gymdeithas y daeth yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf i Dde Cymru a hynny yn Awst 20, 21, 22 yn 1861. Y mae cofnodion yr Eisteddfod hon ar goll i gyd ar wahân i un tudalen sydd yn fy meddiant.

Gwelir felly bwysigrwydd cyfraniad y Carw Coch i Aberdâr yn y ganrif o'r blaen, a gobeithiaf y bydd i'r gymdeithas yma a agorir o'r newydd heno gynorthwyo i ddod ag adfywiad llenyddol ac Eisteddfodol i Gwm Aberdâr.

Cornel y Cerddor.

Gan Mus Bac.

Yr Harmonium.

Cyn i mi ymgymeryd â'r gwaith o ysgrifennu ambell bwt ar bethau cerddorol i'r Ymofynnydd fe'm siarswyd gan Y Golygydd i beidio a threiddio i ddyfnion bethau cerddorol dan berygl cael sac ddi-symwth. "Deliwch â phethau cerddorol a fydd o ddiddordeb i'r rhai hynny sy'n gerddorion ac yn *ddealladwy* i'r gwŷr heb fod yn gerddorion," dyna'r geiriau a dyna a geisiaf innau wneud hyd y gallwyf. Ac i'r ysgrif gyntaf ni allwn feddwl am well testun na'r uchod ; mae'r harmonium bellach mor gartrefol â'r dresser hen ffasiwn yng ngheginau Cymru. Daeth hen harmonium i gartref cyfaill i mi yn ddiweddar, a chan geisio cymryd diddordeb, gofynnais iddo, "faint o stops sydd iddi?" "Stops," meddai, "dim stop o gwbwl gallwn feddwl, mae hi'n mynd fel ffair ers pan ddaeth i'r tŷ !".

Ydych chwi wedi gofyn am beth o hanes yr harmonium erioed? Wel, fe ddywed yr awdurdodau i'r patent o'r harmonium cyntaf gael ei gofrestru yn 1840 ac mai gŵr o'r enw Alexander Debain o Baris a biau'r hawl i'r offeryn. Diau fod eraill go debyg wedi eu llunio beth amser cyn hynny ond taw Debain a aeth a'r maen i'r mur. Math arbennig a olygir gan y gair harmonium a dylid cofio nad yr un ydyw a'r American Organ. Tynnu gwynt i mewn drwy'r pibau y bydd yr American cyffredin a'r harmonium yn ei chwythu i fynny drwyddynt. Dyna'r gwahaniaeth sylfaenol. Fodd bynnag, daeth yr harmonium yn ei hamryw ffurfiau yn boblogaidd iawn yn y cysegr er iddi gael gwrthwynebiad pybyr gan ambell hen ddiacon a chodwr canu eiddigeddus. Nid 'gwlad y delyn' oedd Cymru erbyn diwedd y ganrif ddiwethaf ond 'gwlad yr harmonium'. Ac os na chai fynd i'r capel bob tro, yr oedd yn sicr o'i lle yn yr ysgoldy. Hi oedd hoff gyfeiliant gwŷr fel Mynyddog a'r Dr. Joseph Parry, ac yn wir dan ddwylo medrus gall fod yn effeithiol dros ben. Ond er i'r harmonium yn ei dydd gyflawni gwasanaeth da, dichon iddi hefyd wneud peth drwg. Daeth yn 'fand un dyn' hwylus dros ben ac o dipyn i beth collwyd y gerddorfa linynnol a phres o'n eglwysi. Ni cheir mohonynt bellach mewn nemor gapel a chollodd y diwylliant cerddorol Cymreig lawer drwy hyn. Ofnaf y gall y dirywiad barhau drwy gyfrwng yr Organ Bib fawr sydd mor boblogaidd y dyddiau yma, ac offeryn a all dan law anfedrus foddi llais y gynulleidfa a pheri iddynt ddistewi o un i un. Gogoniant yr hen anghydffurfiaeth oedd y *cyd*-addoli a'r *cyd*-ganu; nid disgwyl oddi wrth *un* offeryn a wnaed nac *un* cerddor ond 'cydymroi i ganu moliant'. Ysgwn i hefyd, oblegid y dirywiad yma a barodd ganoli'r ganiadaeth ar un person, ysgwn i, pa sawl cynulleidfa drwy'r wlad a rwygwyd gan ryw bwt o harmonium. Faint o bwdu a chadw draw a achosodd y feiden fach pan aeth Cythraul y Canu i letya yn ei megin? Chware teg hefyd, nid arni hi 'roedd y bai i gyd, a rhaid diolch o galon i ddyfeisydd 'cerddorfa'r dyn tlawd.

[*Diddorol fuasai gwybod i ba gapel Undodaidd y daeth yr harmonium gyntaf*—Gol.

Gair o Canada.

Gan R. Wynne, Hamilton, Canada.

Mae'n debyg mai rhyfyg ar ran gŵr lleyg yw beiddio troedio i faes hanes eglwysig gan mai maes yr arbenigwr yw hwnnw. Eto fe gefnoga'r Undodwyr ymchwil onest gan nad o ba le y dêl. Bûm yn gwneud ychydig o ymchwil a deuthum i'r farn

fod yr hen Eglwys Geltig fel yr oedd yng Nghymru cyn dyfodiad Awstin i Gaergaint a Dewi i Dyddewi yn perthyn yn agosach i Undodiaeth fodern na dim a elwir ar enw Cristnogaeth heddiw.

Y mae Dr. Gifford yn ei lyfr "*The Story of the Faith*" yn gwahaniaethu cydrhwng dwy ffurf ar Gristnogaeth fore sef, "y Ddysgeidiaeth" a'r "Efengyl". Mae'n sicr mae y ffurf gyntaf a ddaeth i Brydain ar y dechrau ag iddi ddyfod yn gynnar iawn. Y mae Paul yn ei lythyr at Gristnogion Rhufain yn cyfarch Brythoniaid oedd yno yn garcharorion rhyfel megis Clawdia ag Aristobolus ac yn hiraethu am allu ymweld a'u pobl yn Ynysoedd y Mor. Gwyddis i lawer o'r carcharorion hyn ddychwel i'w gwlad. Yr oedd mynd a dod cyson rhwng Rhufain a Phrydain y pryd hynny.

Yn awr, Awgwstin (354—430 A.D.) yw tad yr "Efengyl" gyda'i chredoau a'i dogmau ac nid effeithiasai y rhai hyn ar hen Eglwys y Cymry hyd ddyddiau Awstin o Gaergaint a Dewi, ac yr oedd hyn tua diwedd y chweched ganrif. Chwi gofiwch hanes Awstin yn cael ei anfon gan y Pab i ffiniau Cymru i geisio gan yr esgobion Cymreig ymostwng i awdurdod y Pab a derbyn y dogmau. Edrydd Bede yr hanes a dywed mai methiant hollol fu'r cyfarfod am na fynnai'r Cymry newid dyddiad eu Pasg a "materion eraill."

Pa bethau, tybed, ydoedd y "materion eraill" hyn? Wel, y mae gennym awgrym lled dda yn ysgrifau un o'r esgobion Cymreig. Morgan oedd ei enw i'r Cymry ac y mae'n debyg mai lledgyfieithiad o'r enw Cymraeg yw ei enw Lladin—Pelagius. Tua ffiniau yr Eidal a'r Môr Canoldir yr oedd pan ysgrifennai ac ymosodai yn dost ar "efengyl" Awgwstin ac esgymunwyd ef gan y Pab fel heretic. Cydoesai ag Awgwstin ac yr oedd yn ysgolhaig gwych mewn Hebraeg, Groeg a Lladin. Fe wrthodai ef y gred fod pechod Adda yn cael ei gyfrif i'r hîl. Peth i Adda ei hunan ydoedd. Fe enir pob baban yn ddiniwed eb ef, ac y mae gan bob dyn ewyllys rydd i ddewis rhwng y da a'r drwg. Y "Ddysgeidiaeth" sy'n bwysig. Dilyn Iesu yw yr unig ffordd i'w Deyrnas Ef.

Yn ddigon sicr dyma'r hen Brotestaniaeth Gymreig y bu Dewi Sant yn abl i'w lled-fygu yn ei ddydd a'i throsglwyddo i Rufain er i'r hen Eglwys lurgunio byw am rai canrifoedd wedi dyddiau Dewi. Eithr na thybied neb fy mod yn awgrymu diswyddo Dewi o fod yn Nawddsant Cymru a dodi Morgan yn ei le. Y mae Dewi fel simbol Cristnogaeth wedi ennill ei le yn dderbyniol i bawb ohonom.

Wedi dyddiau'r hen Eglwys Geltig ni welodd Prydain gyfnod mor ymosodol genhadol byth wedyn. Cenhadai'r hen eglwys drwy'r Ynysoedd Prydeinig oll a thrwy orllewin a gogledd Iwrop hyd at ddyffryn y Danwy a Gwlad Pwyl. Cyn y rhyfel byd cyntaf yr oedd ynghadw yn amgueddfa genedlaethol Pwyl hen ffidil neu

grwth Cymreig a adawsid gan un o'r hen genhadon hyn. Dyfais Gymreig wreiddiol yw y crwth ac ef hefyd yw tad pob offeryn llinynnol a genir â bwa. Buasai cerddorfa linynnol yn beth cwbl amhosibl heb y ddyfais hon. Ag a wyddoch chwi pam ei gelwir yn "crwth" ? A welsoch chwi ruglgorn (Rhugl-Gorn) erioed ? Fe elwir y teclyn hwn gan rai yn rhugl-groen am y gellir ei wneud o unrhyw ran o anatomi anifail y gellir gwneud côd neu fag ohono megis darn o groen newydd-ladd. Gosodir pwt o bren yng ngenau y god a nifer o gerrig mân ynddi a'i adael i sychu nes â yn galed fel asgwrn neu gorn. Dyna ichwi y *rattle* effeithiolaf mewn bod ac fe'i defnyddid i ddychryn brain neu anifeiliaid a dresbasai ar y cnydau.

Yn awr y mae'n lled sicr mai dyma'r dull y gwneithid y crwth. Eithr rhan o anatomi yr anifail benyw a ddefnyddid, sef y *groth* oherwydd sylwer mai y ffurf wrryw o'r gair *croth* yw *crwth*. Chwythid gwynt i'r god a'i sychu a gosod ffon yn y genau i ddal y llinynnau. Dyna'r groth neu y crwth. Ond tybiaf mai *sounding-box* pren oedd i grwth Pwyl.

Cyfarchion pybyr i J. Raymond Hodkinson, B.Sc., a'i Antur Fawr.

R. Wynne.

Cwest yr Ugeinfed Ganrif. Rhif III.

Y Sinic.

Gan D. Ll. Carellio-Morgan.

Yn yr ysgrif diwethaf, soniais yn fyr am y gor-ofn sy'n llethu nifer mawr o bobl ein canrif. Yn yr ysgrif hon ceisiaf daflu ychydig o oleuni ar ystad feddyliol y chwyrnwr (Cynic). Mae nifer y chwyrnwyr ar gynnydd yn ein canrif ni, ac, yn anffodus, bydd rhai ohonynt yn troi'n fwrddwyr, yn lladron ac yn wenwyn i gymdeithas. Lle bo gwendid yn adeiladaeth yr ego-ysbrydol, yr hawddaf peth i'r unigolyn yw llithro'n ddiarwybod i ystad druenus y "sinic". Gwelais achosion o'r fath mewn gwallgofdai, carcharau a sefydliadau cyffelyb. Cyn y gellir condemio'r sinic, mae'n ofynol bwrw golwg ar achosion ei gyflwr ysbrydol. Y peth cyntaf a dynn ein sylw yw'r ffaith mai bod anhapus yw'r sinic a'i fod hefyd mewn rhyfel cyson â chymdeithas. Nid yw'n dewis chwilio'i le na'i swydd mewn cymdeithas fel bod normal ; yn hytrach myn gadw ei hun o'r neilltu gydag un amcan pwysig

yn ei ymwybyddiaeth, sef, ymosod ar bob trefn gymesurol a chondemnio er mwyn condemnio.

Gafaela'r afiechyd ysbrydol mor ddwfn ynddo fel mae'n anodd ei ddifeddiannu o'i syniadau cyfeiliornus a'i gael i gadw'i feddwl ar raddfa wastad a rhesymol. Y mae pob cyfnewidiad sydyn mewn polisi yn rhoddi cyfle iddo i sarhau dynoliaeth ac i boeri'n wawdlyd ar holl ymdrechion y ddynoliaeth i sicrhau gwelliannau. Yn rhyfedd iawn, nid unigolyn anwybodus, fel rheol, yw'r sinic perffaith ond un sy'n feddiannol ar wybodaeth amgenach na'r cyffredin am fudiadau, gwleidyddiaeth, marsiandïaeth, gwyddoniaeth, etc. Mae'n ofynol sylwi nad y dyn sy'n "pwdu" yw'r sinic oblegid mae bydoedd o wahaniaeth rhwng y ddeuddyn. Y mae'r dyn sy'n pwdu yn dod dros ei anhwylder amserol. Ar y llaw arall, cymerir meddiant o feddwl y sinic gan y nwydau dinistriol ac nid oes i ddynoliaeth ddycnach gelyn !

Fel y crybwyllwyd eisioes, try ei rawd yn galendr o anhapusrwydd, ac yn yr ystad annifyr hon, tŷf y chwerwder a'r dicter a berthyn i'r sinic cyffredin. Nid oes amheuaeth parthed dylanwad dinistriol unigolyn o'r fath ar gymdeithas a lle rhoddir achos i'r meddwl sinicaidd, mae cymdeithas mi gredaf, yn euog o roddi bod iddo. Nid oes ddrwg heb achos ac oherwydd caledwch calon cymdeithas, y mae'r ugeinfed ganrif yn rhwym o roddi bodolaeth i'r sinic peryglus a fedr ddadwreiddio tŵf diwylliant a thorri i mewn at seiliau pob cymdeithas grefyddol. Fel meddylegwr, buaswn i'n barod i roi'r bai am fodolaeth y sinic ar ein cymdeithasau gweinion. *Y mae i bob dyn ei le mewn cymdeithas* ; *i bob dyn ei werth yn ol y gallu a roddwyd iddo.* Pan bo cymdeithas yn dewis diraddio gallu Duw yn yr unigolyn, y mae'r drws yn lled-agored i ysbryd y sinic i ruthro i mewn i enaid yr unigolyn ac i chwalu seiliau cymdeithas. Yn fy marn i, un o broblemau garwaf ein canrif yw symud cysgod y sinic o'n plith ; hynny yw, ceisio ymlid achos yr anfodlonrwydd yn yr unigolyn a gweithredu cyfiawnder fel na bo gobaith i'r ysbryd sinicaidd ennill lled troed mewn unrhyw gylch cymdeithasol. Petai cyfiawnder yn cael ei weithredu, ni buasai "tir parod" i'r meddwl sinicaidd o gwbl. Fel mae'n digwydd, y mae'n crefydd heddiw heb fod yn ddigon Cristnogol i sicrhau cyfiawnder ac, am hynny, erys cymdeithas yn darged agored i saethau gwenwynig y sinic.

Gall hwn, trwy ei ddylanwad cryf, ddatwneud holl uchelwaith crefydd, cyfraith gwlad a moes.

Cymaint yw'r perygl o'r cyfeiriad y soniaf amdano, fel y carwn estyn gair o rybudd,—nid ysgafn, i arweinyddion cymdeithas led-led Cymru fel y sylweddolant mewn pryd mai ar ddinistrio cymdeithas y mae bryd a nwydau'r sinic modern.

Yn rhwydd y gellir condemnio'r sinic a'i ddiarddel, os mynnir, ond, yn anffodus, y mae'r sinic yn dewis gweithio'i anfadwaith y tu allan i gylch cymdeithas fel y gwnaeth Hitler—ac nid anghofir maint y difrod, y colli bywyd a'r dienyddio a ddaeth yn sgîl rhyb-uddion y gŵr hwnnw i wledydd Ewrob.

Dyletswydd pob cymdeithaswr, pob crefyddwr, pob Cristion yw rhoddi i'w gyd-ddyn ei le a'i werth mewn gwaith a chymdeithas. O wneuthur hynny, sicrach y bydd gafael pob unigolyn ar ei einioes ei hun ac amgenach ei gyfle i fwynhau'r bendithion a deilynga pob dyn normal mewn byd sydd a'i wyneb beunydd tua'r wawr.

[*Bu'r ysgrif yma ar goll am rai misoedd ym mhlith fy mhapurau*—Gol.]

Myfyrdod

Yn hwyr y dydd, a'r gwyll yn toi yr henfro,
A dwndwr masnach erbyn hyn yn fud,
Galwadau'r byd am ysbaid wedi tewi,
A'r gweithiwr wedi troi i'w fwthyn clyd.

Pryd hyn ar dawel awr, daw inni hamdden
I orffwys mewn myfyrdod ger y tân ;
Tros waith y dydd a'i luaws ddyletswyddau
Cawn daflu golwg deg trwy'r oriau mân.

Ai ffyddlon fuom ni i lais cydwybod ?
Ai cywir i ofynion ucha'n bod ?
Ai hunan-les a boddio trachwant bydol
Yn holl drefniadau'r dydd a fu ein nôd ?

Nid gwiw i ddyn yw byw yn llwyr 'i hunan,
Aelodau ydym o un teulu mawr,
A'n dyled ydyw cynorthwyo'n gilydd
I godi safon bywyd ar y llawr.

Llanbedr-pont-Stephan. A. J. Rees.

Dysgu Cymraeg.

Gan W.S.J.

Anghymwysa'r amodau fi i dderbyn gwahoddiad y Golygydd i ddiolch i Raymond Hodkinson am ei gyfraniad clodwiw i Rifyn Hydref o'r *Ymofynnydd*. Er hynny symbylodd ei erthygl fi i ysgrifennu a fwriadaswn ei gyhoeddi ers blynyddoedd. Gwnaf hynny'n awr yn y gobaith y bydd o gymorth i R.H. ac efrydwyr eraill o'r Gymraeg.

Cefais y fraint amrhisiadawy dros hanner canrif yn ôl o ymaelodi yn un o ddosbarthiadau'r diweddar yr Athro John Morris Jones (gwedi hynny Syr John). Yr oedd yn dywysog o ddysgawdwr ac nid anfynych y pefrai ai athrylith yn ei ddarlithiau. Wele isod ei daflen gynorthwyol i feistroli'r saith dull o ffurfio'r lluosog yn y Gymraeg.

Byrfoddau.

c — C yfnewid llafariad.
a — A todi neu chwanegu terfyniad lluosog.
d — D iosg neu ollwng terfyniad unigol.
= — Yn unfaint a, yn gyfartal a.
\+ — A + neu ac.

	Y Cynllun	*Enghraifft.*
(1)	c	brân, brain
(2)	a	merch, merched
(3)	= (2) + (1) = a + c	bwrdd, byrddau
(4)	d	mochyn, moch
(5)	= (4) + (1) = d + c	deilen, dail
(6)	= (4) + (2) = d + a	diferyn, diferion
(7)	= (4) + (2) + (1) = d + a+c	cerdyn, cardiau

Ni ymddangosodd y byr gynllun hwn yn un o ramadegau Syr John. Ni welais ychwaith gyfeiriad ato yn unman na chlywed sôn gan neb amdano. Eto i gyd tybiaf y byddai'n resyn gadael campwaith syml fel hwn fyned i ddifancoll. Y mae ei glyfrwch yn hawlio ei gadw. Llawer gwaith y bendithiais yr Athro dawnus amdano.

Gohebiaethau.

"O Dud fwyn ei dad a'i fam—mynd ar ffo
I Jarrow a Harrow a Birmingham."

Annwyl Olygydd,

Pleser mawr oedd darllen rhannau o farddoniaeth bardd y Gadair 1950 yn rhifyn Medi. Ond synnais i ddeall oddi wrthych nad misprint oedd y cyfeiriad at Jarrow fel un o'r lleoedd yr aeth rhai Cymry iddo i edrych am waith rhwng y ddwy ryfel. Yr oedd rhif y diwaith yng Nghymru yr amser hwnnw yn druenus iawn o uchel ac yn cyrraedd yn y mannau uchaf gymaint â 75.4% (o'r *working population*) ym Merthyr, 68.1% ym Merthyr, Dowlais a Threharris gyda'i gilydd a 55.1% yn Aberdâr. Er hynny yr oedd ffigwr Jarrow, yn ei fan uchaf, yn waeth sef 81%. Anodd felly credu i neb i fynd i edrych am waith yr amser hwnnw i Jarrow yn fwy nag yr â pobol o Ddeheudir Cymru heddiw, lle mae ffigwr y diwaith yn 3.9%, i edrych am waith yng Ngogledd Iwerddon lle mae 5.2% yn ddiwaith. Eiddoch yn gynnes.

Llundain (2. 11. 50). R.O.J.

Y mae'n dda gennyf weld llythyrau yn dal i ddod ac y mae croeso i ragor bob amser. Credaf fod diddordeb byw mewn materion cyfoes yn werthfawrocach na moliannu di-ddiwedd ar ein harwyr yn yr oes o'r blaen. Gobeithiaf hefyd na fydd raid i'r Golygydd ateb bob tro eithr carwn weld eraill yn taro i mewn i'r ddadl. Yn awr at lythyr R.O.J. Yr wyf am roi cryn sylw i hwn am fod ei fater ef wedi cael ei wynto gan nifer o bobl yn y wasg Gymraeg ond hyd yn hyn ni welais driniaeth lawn ar y cwestiwn. Gŵyr R.O.J. fy mod yn hanner cytuno ag ef beth amser yn ôl gan gredu mai ffôl o beth oedd cynnwys 'Jarrow' ym mysg y trefydd. Wedi aros ac ystyried a chael rhagor o wybodaeth yr wyf wedi newid fy meddwl. I ddechrau, hyd yn oed pe bai Jarrow yn waeth, yr oedd eto'n bosibl i unigolyn fynd o un o drefydd y De i'r dref yma. Y mae pobl yn dod i Aberdâr heddiw o Loegr, yn Saeson ac yn Bwyliaid, er fod rhif diwaith y Cwm yn uwch lawer na rhif diwaith Lloegr, yn ôl yr herwydd. Yn ail, ac yn bwysicach o lawer yr wyf yn dal nad oedd Jarrow *ar hyd y blynyddoedd* rhwng y ddwy ryfel yn waeth o ran diweithdra na De Cymru, nid oedd *hanner cynddrwg* â rhai mannau yma. Ofnaf nad yw ffigurau R.O.J. yn profi dim oherwydd ffigurau allan o'i cysylltiadau ydynt. Gwn mai ffigurau uchaf ydynt (peak figures) ond dylid rhoi mis a blwyddyn i bob lle cyn gallu cymharu na thynnu un casgliad. Er gosod y mater yn weddol deg euthum i chwilio am ragor o ffigurau'r diwaith ac fe'i cefais drwy garedigrwydd y *Ministry of Labour*. Ni ofynnais am flynyddoedd arbennig ond dewiswyd ganddynt hwy roddi imi ffigyrau Gorffennaf pedair blynedd yn unig (yr oeddwn wedi gofyn am y blynyddoedd *i gyd* rhwng y rhyfeloedd). Dyma nhw, wedi eu gosod fel y gellir cymharu cyfartaledd y diwaith yn y tri chylch :—

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD".

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

GOLYGYDD—
Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Aberdar

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA"

CYFROL L
1950

Llandysul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Gwasg Gomer.

CYNNWYS

Aberystwyth, Y Mudiad Undodaidd yn, 54, 141, 225.
Addoli Duw, 2.
Aelodaeth Eglwysig, 121.
Anrhydeddu Undodwr, 94.
Antur Fawr dysgu Cymraeg, 176.
Arholiadau 1949-50, 125.
Atgofion Sion Ifan Sion, 92, 135, 158, 177, 220.

Bardd Caerffili, 156.
Barddoniaeth, 10, 21, 25, 60, 66, 108, 132, 145.
Bhagavad Gita, 143.
Blodau Atgof, 166.
Brawdoliaeth Dyn, Ein Credoau, 118.

Ciliau Aeron, Slawer dydd, 61.
Clawr Yr Ymofynnydd, 182.
Cymeriad, 116.
Cyrddau Blynyddol, 152.
Cyrddau Chwarter, 48, 192.
Cyflwyno Cyfeillion, 4, 18, 183.

Dogma Babaidd Newydd, 211.
Dyn, 120.
Duw, Y Bod o, 110.

Eisteddfodau a gofiaf, 218.
Evans, Y Parch. David, 37, 89.

Ffydd Gristnogol ac Iechyd Meddyliol, 27.

Gaskell, Mrs., 207.
Gohebiaeth, 127, 151, 191, 230.

Hopkin, John, 11.

Interview a gwŷr blaenllaw, 7, 22, 56, 75, 97, 122, 138, 162.
Iesu, Fy, 114.

Llundain, Un o Cymry, 79.
Llundain, Rhyfeddodau a chyrddau'r Gymdeithas, 69.
Lluniau, 38, 94, 95, 154, 156.
Llyfrau, Y Cwpwrth, 68, 190, 236.
Llwynrhydowen, Hen atgofion, 81, 101, 223.

Maes Llafur 1951, 186.
Marwgofion, 15, 30, 44, 65, 84, 104, 128, 147, 168, 187, 215, 234.

Nodiadau'r Golygydd, 1, 17, 33, 49, 109, 133, 154, 174, 193, 217.
Nodion yr Eglwysi, 15, 30, 45, 67, 86, 106, 129.
Newyddion yr Enwad, 149, 169, 187, 216, 234.

Owen, Daniel, 195-206, 234.

Pan oeddwn fachgen, 50.
Priodasau, 14, 29, 44, 84, 104, 128, 147, 167, 187, 214.

Rhodio'n Gywir, 100.

Santa Clôs, 227.
Storc, Y, 191.
Stori, 91.
Stori'r Enwad mewn ffigurau, 144.
Swyddogaeth gwraig mewn bywyd cyhoeddus, 180, 229.

Taith arall i'r gorffennol (Cribin), 37.
Taith i'r gorffennol (Ferndale), 34, 63.
Tim, 13, 83.
Trem tuag yn ôl, 42.

Williams, Y Mans, Mrs., 80.
Weinidogaeth, Y, 112.

Ymryson y Beirdd, 95.

Blwyddyn	Jarrow	Merthyr	Brynmawr
1929	21%	45.9%	60.3%
1932	53.3%	56.9%	67.6%
1938	20%	45.6%	53.9%
1939	16.5%	43%	46%

Gwelir yn ôl y ffigurau yma fod diweithdra Merthyr a Brynmawr yn gyson uwch na diweithdra Jarrow yn yr un amser. Yn wir yn Gorff. 1929 a 1939 mae diweithdra Brynmawr bron *deirgwaith* yn fwy na diweithdra Jarrow a phethau bron cynddrwg ym Merthyr. Onid oedd yn bosib (ac yn fwy na phosibl) i lowr oedd yn byw yn Brynmawr yr adegau yma fynd i Jarrow lle'r oedd y cyflwr dair gwaith gwell? Ond arhoser, nid dyna'r cwbl. Beth am drethi, a phethau i'w ystyried oeddynt yn y cyfnod hwnnw pan oedd pob dimau'n cyfrif. Yr oedd trethi Merthyr am bedair blynedd gennyf yn barod wedi ei codi o'r Government Report on Merthyr Tydfil (1936), felly er mwyn cael cymhariaeth deg ysgrifennais at Glerc Tref Jarrow i ofyn am eu trethi hwy yn ystod y pedair blynedd hynny, Dyma'r canlyniad gan roi'r dreth yn y bunt :—

	Merthyr	Jarrow	Gwahaniaeth
1921-2	30/5½	19/8	10/9½
1927-8	30/7½	20/6	10/1½
1933-4	27/6	17/9	9/9
1935-6	28/5	19/6	8/11

Synnwn i ddim nad yw'r *gwahaniaeth* a ddangosir yn y rhestr yma yn fwy na threth gyfan ambell le. Dyna'r pethau a yrrodd boblogaeth De Cymru ar ffo i "Jarrow a Harrow a Birmingham," tua 500,000 ohonynt mewn cyfnod byr. Oni welir cam lywodraeth mewn peth felly rhaid bod dyn yn ddall.

GOL.

DWYN EIN TIR.

ANNWYL OLYGYDD,—

UN peryglus i'w ddefnyddio ydyw'r gair 'dwyn',—llai felly efallai pan siaredir am gorfforaeth, nag am berson unigol,—ac edmygaf y modd y bu i chwi sugno'r gwenwyn allan o'i golyn yn yr ymadrodd, "Dwyn ein tir." Credaf yn wir y gwnaech dwrnai tan gamp, ac ni synnwn ni ddim na allech,—trwy ymdrin yn y gwreiddiol â'r gair bychan yna,—roddi agwedd newydd sbon ar yr adnod ryfedd sy'n gorchymyn, i'r Cristion, am adael ei gochl hefyd, i'r neb a fynno '*ddwyn*' ei bais. Lled-dybiaswn, er ys talm, mai'r tri thant pennaf yn nhelyn perchnogion tiroedd gorest Gymru ydyw L, ac S, a D, (yn y drefn yna), ac ni dymchwelodd picas eich hymresymiad (fel y gwelwch yn yr englyn isod), mo rwndwal fy argyhoeddiad. Eiddil, mi wn, ydoedd y englyn ar ddiwedd fy llythyr blaenorol, ond bu i chwi, Mr. Gol, neu'r cysodydd ei wanychu ymhellach, trwy newid 'dian' yn 'diau'. Brodor diniwed o

Sir y Cardi yw 'dian', a chyfyrder ydyw i'r ddau frawd, 'diawst' a diawch'. O dymer swil ac ofnog, ei gais ydyw cilio 'mellach, na hyd yn oed y ddau hynny, oddiwrth y gŵr du a hyll sydd a'i enw yn diweddu gydag 'l'. Mynnodd 'dian' wthio i mewn i'r englyn hwn eto.

"Dwyn y tir? O dian! ai tâl—mawr sy raid
Âm ros o rug anial?
Am grocbris y mae sisial,—
A mawr swm am erwau sâl!

Dol Ardd, Cwrtnewydd. Cledlyn.

'Erwau sâl' yw'r 'wlad orau sydd'—i ŵr
Na charo'r hen rosydd,
Ond i lanc, ei *fanc* a fydd
Ei 'ros fawnog' a'i 'Draws Fynydd'

Taw ddyn! nid oes tyddynnwr— â rhan mewn
Arian mawr a llwgwr,
L. S. D. !(di-sail y stŵr!)
Pentan sy'n well na'u pentwr.
—Gol.

Llythyrau Anna Beynon.

Annwyl Olygydd,—

Ni fuaswn yn eich blino ym mhellach oni bae fod yr allweddair (keyword) yn llythyr Dr. Rees ar llythyrau Anna Beynon wedi ei lofruddio yn rhifyn Rhagfyr o'r Ymofynnydd, ac ei bod yn bwysig ei adferid. Nid "He intended them as a kind of woooo" ysgrifenodd Dr. Rees, ond "He intended them as a kind of novel." Nis gwn pa ddewin fedrodd droi *novel yn "woooo,"* pa mor aneglur bynnag oedd fy ysgrifen. Gyda golwg ar eich sylwadau golygyddol ni ddaeth i'n meddwl fod na gofyn na gofod i olrhain helyntion y "nofel" yn y cyfnodolion am dri chwarter canrif, na rhoddi bywgraffiad yr awdur, er fod y Genhinen wrth fy mhenelin. Digon a gwell mynd at lygad y ffynnon a chadw at y pwynt. Ni freuddwydiais chwaith, y byddai unrhyw un a llygad syml yn meddwl fy mod yn honni mai fi ddalodd yr ysgyfarnog. Yr oedd yn amlwg mai Dr. Rees wnaeth hyn wedi iddi hudo llenorion a chamarwain haneswyr am flynyddau. Yr oll a geisiais i oedd gwneud yn eglur drwy lythyr Dr. Rees, mai "math o nofel" ac nid hanes yw "llythyrau Anna Beynon" a bod yr hwn a'u hawliodd fel hanes yn pechu yn erbyn y gwirionedd.

Simon Jones.

Bûm yn chwerthin yn galonnog pan welais y "*woooo*" yng nghanol llythyr S.J. Ie, dewin mae'n rhaid a'i lluniodd, a'r dewin hwnnw yn ceisio dweud wrthym ein dau yn union fel y bydd amaethwr o Sir Aberteifi yn dweud wrth geffylau sy'n dechrau rhwysgo, w-o-o-o-o! Teyrnased y dewin!—Gol.

Y Crics.

gan Waldo Williams.

Yn y pentan, pa antics ?—alawon
Teuluol y mân-grics,
O mae'n braf yma'n y brics
'Rym eto heb riwmatics.

Cadw o'n cwat, y riwmatics—a'th ormes
A'th thermo-dynamics,
A'th atal ar esthetics
Eon ein troeon a'n trics.

Cawn yma economics—a ddysgwn
Ar ddesgiau'r athrogrics ;
Testun ein holl statistics
Drwy haf brwd yw rhifo brics.

Pele 'te yw'n politics—os ceir gwres
Ceir grym i'r hil Felix ;
Nid crasu yw crasu crics
Nid tato yw'n dietetics !

Yn y fflam y cawn y fflics—egwyl fer
Yn nirgel fyd optics,
Nid tindroi, ymroi ym mrics
Y fan eithaf yw'n hethics.

Safwn yn un mewn 'civics'—ein pentan
Yw'n pwynt, meddai'r mawrgrics,
Ni cheir heno mewn bro brics
Un cystal mewn acoustics.

Seiniwn goruwch y cynics—awn rhagom
Gan regu'r hen gritics,
Mwngrels yw'r rhain, mae iawngrics
Yn un clwm heb wenwyn clics.

Pa atal i'w poetics—ânt ymlaen
Mewn twym le â'u metrics,
Fe ddywed eu cred, y crics,
A'u natur a'u genetics.

Llaw ddiwyd a Gyfoethoga.

Gan A. J. Rees, Llanbedr-Pont-Stephan.

Rhyw hanner can mlynedd yn ôl yr oedd y ddihareb uchod yn boblogaidd iawn yn ein hardal ni. Byddai ein rhieni yn hoff o'i dweud wrthym ni yn bur aml, ac fe erys yr hyn a glywn yn aml yn y cof. Cyfnod y teuluoedd mawr, yr oriau gwaith hir a'r huriau isel oedd hwnnw, a gwyddai ein rhieni werth diwydrwydd yn dda, gan ei bod yn angenrheidiol i'w arfer er cael dau ben llinyn ynghyd, heb sôn am gyfoethogi. Gweithiai ein rhieni yn ddiwyd o godiad haul i'w fachlud heb fawr o hamdden ond i fwyta pryd o fwyd, a disgwylid iddynt wneud hynny gyda'r brys mwyaf. Y mae'n wir fod pobl ddiog a didoreth i'w cael yn y cyfnod hwnnw, a gellid gweld hynny wrth gyflwr eu cartefi a'u plant.

Erbyn heddiw, y mae pethau wedi newid llawer yn ein gwlad ni. Gellir galw'r cyfnod hwn yn gyfnod y teuluoedd ysgafn, yr oriau gwaith byr a'r hiriau uchel. Er pan gymrodd y Llywodraeth ddiwydiannau y wlad i'w dwylo, ni chaiff y gweithiwr weithio ond am ryw ychydig oriau penodol, ac os gweithiai am funud dros yr amser, bydd yn agored i ddirwy.

Golyga ychydig o oriau gweithio lawer o oriau segur, a chan nad yw dyn fel rheol yn hoff o fod yn segur am oriau o'r bron, bydd yn naturiol iddo feddwl am ryw hobi i hwyluso'r amser. Y mae dau faes yn agored iddo, sef maes datblygiad a maes dirywiad, ac y mae rhyddid ewyllys ganddo i ddewis i ba un o'r ddau faes i fwrw ei gryman. Mae'r dewis yn anrhaethol bwysig.

I'r sawl a ddewiso ymddiddori ym maes datblygiad, y mae digon o gyfryngau teilwng at ei wasanaeth, I enwi ond ychydig, y mae llenyddiaeth, cerddoriaeth, barddoniaeth, diwinyddiaeth ac athroniaeth yn werthfawr ac yn gymwys er cyfoethogi a diwyllio'r meddwl a'r deall. Pan fyddo'r meddwl a'r galon yn llawn o feddyliau aruchel, nid oes ynddynt le i syniadau a bwriadau israddol. Bydd y cyfryngau yma nid yn unig yn cyfoethogi dyn ym mhethau'r byd hwn, ond hefyd yn sylweddau mawr y byd ysbrydol. Ni chredaf fod gan Dduw wrthwynebiad inni gasglu cyfoeth bydol cyhyd ag y gwnawn hynny yn onest a chydwybodol, ac yn ol cyfundrefn y wlad heddiw y mae bron yn amhosibl i'r dyn diysgog a ennill gyflog uchel yn niwydiannau mawr y wlad beidio cyfoethogi. Dywed y Comiwnydd nad oes hawl gan neb gasglu arian, ac y dylai pawb fod ar yr un lefel. Cydraddoldeb yw ei arwyddair ef. Y mae rhai pobl wrth natur yn fwy diwyd nag eraill, felly, os yw'r ddihareb "Llaw y diwyd a gyfoethoga" yn gywir, beth am gydraddoldeb, os mai yr un hîr fydd y diog a'r diwyd yn dderbyn pa gymhelliad fydd hyn i ddiwydrwydd ?

I'r sawl a ddewis faes dirywiad i dreulio'i amser segur, y mae digon a gormod o gyfryngau diraddiol at ei chwaeth ynddo. Bydd deiliaid y maes yn ymhyfrydu mewn gau bleserau megis diota, gamblo ac ysbeilio, heb enwi rhagor. Y mae'r pleserau yma yn gostus iawn, a'r perygl ydyw, gydag amser, i'r blys atynt orbwyso'r boced, yna bydd yn argyfwng arnynt, a bydd yn rhaid cynllunio modd i gael arian yn ychwanegol at y gyflog arferol er porthi'r blys at y pethau llygredig. Mae'n bosibl na ymeldengys un cynllun yn haws na thorri i mewn i dŷ yn ochelgar, a lladrata cymaint a fydd yn bosibl cael gafael arno. Y mae hynny yn gyffredin iawn heddiw.

Fel rheol, nid yw cyfoeth anonest yn lwcus i neb, yn hwyr neu hwyrach bydd braich hir y gyfraith yn debyg o ddal y troseddwr, a'r canlyniad fydd iddo gael ei gloi tufewn i ddrws cadarn y carchar yn amddifad o barch ac o gyfaill. Gwyn fyd y cyfoethog yn nhrysorau'r Nef.

Priodasau.

Tachwedd 25ain, yng Nghapel-y-groes ym mhresenoldeb y cofrestrydd, JAMES LLYWELYN DAVIES, Islwyn, Cribyn a MARY FLORENCE ELIZABETH KENT, Araul, Llanwnnen : Y Parch. J. Islan Jones, M.A. yn gwasanaethu. Hir oes a phob bendith i'r ddau.

Rhagfyr 9, yng Nghapel yr Anibynwyr Mydroilyn Mr. EVAN DAVID, mab hynaf Mr. a Mrs. E. Daniel Jones, Tanffynon, Rhydowen a Miss MARY EURWEN, merch Mr. a Mrs. E. Lloyd Jones, Maesnewydd, Mydroilyn. Gwasanaethwyd gan Pryce Jones, M.A., gweinidog y lle, E. O. Jenkins a'r cofrestrydd Alun Evans.

Rhagfyr 16eg, yn yr Eglwys Esgobol yn Ferryside, priodwyd Mr. THOMAS DANIEL DAVIES, ail fab Mrs. Catherine Davies a'r diweddar Thomas Davies, Blaencwm, Felinfach, Ceredigion, a Miss MARGARET GRIFFITHS, merch Mr. a Mrs. D. R. Griffiths, Ty'r Eirin, Ferryside gan y Parch. M. Rees, Ficer a'r Parch. Mr. Evans, Curad. Llawer y bo'u dyddiau a dedwydd y bo'u bywyd.

Sadwrn, Rhagfyr 16, ym Mhantdefaid, Mr. DANIEL RICHARD HUGHES, Staff Hotel R.A.E. Aberporth a Miss MARY ELIZABETH, merch Mr. a Mrs. J.W. Griffiths, Milford House, Castellnewydd Emlyn. Gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins, David Davies, Sychdy, cofrestrydd a Mrs. Parke Davies wrth yr organ.

Marwgofion.

Ar y chweched ar hugain o Hydref, bu farw SARAH, merch hynaf y diweddar Evan Jones, Abernant, Cribin (gynt Cwmpib) ac Anne ei wraig. Yr oedd Sarah yn 66 oed ac yn aelod o Gapelygroes. Bu yn gweithio yn Llundain am flynyddoedd, ond daeth adref i weini ar ei mam yn ei chystudd olaf, hir.

Yn ddiwethaf, goddiweddwyd hithau gan afiechyd angeuol, a bu farw yn ysbyty Dewi Sant.

Bu'n fenyw weithgar, o rodiad cywir, ac er gwaethaf profedigaethau chwerw, cadwodd ei ffydd a'i ffyddlondeb.

Claddwyd hi yng Nghapelygroes, Sadwrn 28ain, y Parchn. J. Islan Jones, M.A. a Noel James, M.A. yn gwasanaethu. Anghyoedd oedd yr angladd, ond yn ychwanegol at ei dau frawd, ei chwaer a neiaint, daeth y cymdogion agosaf i dalu'r gymwynas olaf i'w rhan farwol.

Tachwedd 29ain, EVAN DAVIES, Gellicarneddau, Llangybi, Llanbedr yn 58 oed. Mab ydoedd i'r diweddar David ag Elizabeth Davies gynt o Abereinon, a wedi hyny o Gwarcefel gerllaw Pantdefaid. Erbyn heddiw un o'r teulu'n unig sy'n aros sef, Elizabeth Davies, "Cottage", Rhydowen.

'Roedd gwybodaeth yr ymadawedig ynglŷn â pheiriannau'r fferm yn helaeth a manwl iawn. Pan fai'r diffyg ar beiriant medrai roi'i fys arno'n fuan a'i symud o'r ffordd. Bu o wasanaeth i amryw o'i gymdogion yn yr ystyr yna.

Pan oedd yn ei hen gartref yng Ngwarcefel ac Abereinon, bu'n ffyddlon iawn ym Mhantdefaid yn enwedig yn yr Ysgol Sul. Cafodd gystudd maith a chaled iawn ond cadwodd yn dra amynyddgar drwy'r oll.

Gadawodd i alaru ei golli briod, dau blentyn a'i chwaer a llu o berthynasau. Y Sadwrn dilynol dygwyd ei gorff i fynwent y teulu'n Mhantdefaid.

Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Islwyn Davies (A), Llangybi, yn y capel a'r fynwent gan E. O. Jenkins, D. J. Jones (A), Llandysul a Ivor Thomas (A), Llanedi

Rhagfyr 9fed, ar ôl cystudd maith iawn THOMAS EVANS, 3, Neuadd, Prengwyn yn 67 oed. Mab ydoedd i'r diweddar Rhys a Sarah Evans, Criborlwyd, Pontshaen. 'Roedd yn un o deulu gweddol luosog ond erbyn heddiw un brawd yn unig sy'n aros. Gwyddai am droeon yr yrfa, collodd ei briod a merch annwyl iawn ychydig flynyddoedd yn ôl ac effeithiodd hyny'n drwm arno. Am flynyddoedd lawer bu'n gweithio ar yr heol ac roedd ganddo wên a gair serchog i bawb. Cymerai ddiddordeb mawr yn yr achos ym Mhantydefaid a chymerai ran bwysig gyda llawer i fudiad perthynol i'r achos. Bu'i gystudd yn eithafol o galed a diamau fod marw'n elw iddo.

Claddwyd y Mercher dilynol pryd y gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins a D. A. Williams, Carmel. Gadawodd i alaru ei golli, fab, merchynghyfraith, brawd ac amryw berthynasau eraill.

Newyddion yr Enwad.

LLUNDAIN.—Yr ydym yn ddiweddar wedi cael y pleser o wrando ar y canlynol yn cadw ein gwasanaethau : Parch. S. E. Bowen, Parch. Noel James, B.A. a Mr. Elwyn Davies (myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin). Hefyd yn ein gwasanaeth diwethaf yn 1950 cawsom araith fer gan Miss Margaret Smith, Llywydd Urdd yr Undodwyr Ifainc, gwasanaeth o ganu emynau dan arweiniad Mr. J. O. Lewis oedd hwn fwyaf. Cafwyd Sosial hapus iawn ar y 19ed o Hydref a Mr. Denzil Davies (Alltyblaca) a Mr. Meredith Thomas, B.Sc. (Capel-y-Groes) yn gweithio yn hwylus iawn fel M.C's. Rhoddodd yr Eglwys Gymraeg lawer iawn o anrhegion tuag at *Bazaar* yr Eglwys Saesneg, a phleser oedd gweld rhai o'n aelodau ieuanc yn rhoddi help llaw gyda'r stondingau. Deallwn i'r Eglwys Saesneg wneud tua £68 o'r *Bazaar*. O ystyried treuliau uchel iawn ein cyfeillion Seisnig a'u caredigrwydd mawr i ni yr ydym wedi penderfynu gwneud casgliad arbennig gyda'r pwrpas o fedru rhoddi £50 iddynt erbyn diwedd Mis Mawrth. Bwriadwn gynnal *Whist Drive* ar Nos Iau, Ionawr 18fed. Blin iawn oedd gennym glywed fod Mrs. Williams (merch Cledlyn) wedi bod yn wael iawn, er ei bod yn yr ysbyty hyd hyn pleser mawr yw deall ei bod lawer iawn yn well. Dymunwn iddi lwyr adferiad buan. Yr ydym yn falch iawn i glywed fod Miss Megan Davies yn awr yn gwella yn gyflym. Yr ydym yn hapus iawn i groesawu i'n cynulleidfa Mrs. Evans (Capel-y-Groes), Mr. Vernon Howells (Cribyn) a Mr. Raymond Hodkinson, B.Sc. (Manceinion). Fe gofia ddarllenwyr "Yr Ymofynnydd" am erthygl yr olaf ar "Antur Fawr ydyw fy nysgu Cymraeg." Cawsom air byr oddiwrtho mewn Cymraeg disglair ar ddiwedd yr Ysgol Gân un nos Sul. Y mae Mr. D. J. Thomas a fu'n dosbarthu "Yr Ymofynnydd" am ryw 12 mlynedd wedi gorfod ymddiswyddo o'r gwaith am ei fod wedi mynd allan i Sutton i fyw. Diolch yn fawr iddo am ei waith trwy'r blynyddoedd (a hefyd i'w nai Mr. Eric Williams am ei helpu). Gobeithiwn ei weld yn ein gwasanaethau o dro i dro eto. Y mae Mr. Jack Lewis (Cribyn) wedi cymryd at y dosbarthu yn awr. Y mae safon "Yr Ymofynnydd" yn un uchel iawn a dylem bob un ei brynnu'n gyson. Bydded i ni ac aelodau pob eglwys Undodaidd Gymreig benderfynnu ei dderbyn a'i ddarllen bob mis yn 1951. Siarad am 1951 : dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb a bydded iddi fod yn flwyddyn o heddwch i'r byd i gyd.

CRIBYN.—Darlith. Nos Wener, Tachwedd 14eg, traddododd y Parch. E. O. Jenkins ddarlith ar 'Tomos Bartley' a Mr. D. T. Williams, C.M. yn llywyddu.

ABERYSTWYTH.—Eleni eto, am yr ail waith, cawsom y fraint o glywed ein cyn-aelod, Mrs. Mary Thomas o Abertawe, yn pregethu yn ein Cwrdd Diolchgarwch am y Cynhauaf. Y Sul olaf ym mis Hydref, sef y 29ain, y cawsom ef eleni a chafwyd cynulliad da ar yr achlysur—y gorau gawsom er ys dros flwyddyn, a phrin y mae angen dweud inni gael pregeth amserol a tharawiadol iawn gan Mrs. Thomas fel y mae ei harfer. Daeth ei phriod

Mr. Leslie Thomas, gyda hi hefyd yr holl ffordd o Abertawe, ac efe fu yn cyfeilio wrth yr organ drwy'r gwasanaeth. Nid oes angen dweud felly ei bod yn teimlo yn ddiolchgar iawn iddynt ill dau am ei haberth dros yr Achos Bach.

LLWYNRHYDOWEN a CHAPEL-Y-FADFA.—Cynhaliwyd y gwasanaethau Diolchgarwch am y cynhaeaf yn y ddau le yma dyddiau Iau a Gwener, Tachwedd 2 a 3, pryd y gwasanaethwyd gan Mr. Islwyn Pritchard, B.A. y Graig, Trebanos. Cafwyd cynulliadau da yn y pedwar gwasanaeth a phregethau gwych ac amserol. Gwasanaethwyd wrth yr organ yn Llwynrhydowen gan Miss Myra Parry ac yng Nghapel-y-Fadfa gan Mrs. Evans, Pantglas a Miss Thomas, Greengrove.

CRIBYN a CHAPEL-Y-GROES.—Dydd Sul, Hydref 29ain, cynhaliwyd Cyrddau Diolch Cribyn. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Tachwedd 5ed, cynhaliwyd Cyrddau Diolch Capel-y-Groes. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams.

UNDODIAID CEREDIGION—Undeb y Gwragedd.

Cynhaliwyd Cyfarfod o Bwyllgor Gwaith yr Undeb yng Nghapel-y-Bryn ym mis Hydref dan lywyddiaeth Miss S. Davies, B.A., Y Garth. Daeth nifer dda o gynyrchiolwyr Canghennau'r Sir ynghyd. Cyn dechrau ar waith y Cwrdd, cafwyd gwasanaeth defosiynol dan arweiniad Mrs. Lewis, Ty'r Ysgol a Mrs. Evans, Ffynnonlefrith wrth yr organ. Derbyniwyd ymddiheurad am absenoldeb oddi wrth nifer o aelodau a gofynwyd i'r Ysgrifennydd Mrs. Davies, Caerwilym i gyflwyno cydymdeimlad y Pwyllgor â nifer o aelodau yn eu hafiechyd. Gofynwyd iddi hefyd gyflwyno llongyfarchion y Pwyllgor i Mrs Margaret Evans, Y Mans, Alltyblacca ar achlysur ei phriodas. Croesawodd Mrs. R. M. Evans, N.D.D., Ffynnonfair y Llywydd a'r Ysgrifennydd yn ôl wedi gwaeledd hir, gan ddymuno iddynt adferiad llwyr a buan. Diolchodd y Llywydd i Mrs. R. M. Evans am gario allan ddyletswyddau'r Ysgrifennydd yn ystod ei selni. Rhoes Miss R. M. Evans, fel cynrychiolydd, adroddiad manwl a diddorol o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Llundain, Ebrill 20fed. Ymdrinwyd a'r mater o gael gwell cynrychiolaeth o Geredigion ar y Pwyllgor yn Llundain, a hynny drwy sicrhau bod aelod o'r Sir ar y Pwyllgor yn barhaus. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd yrru gair i'r Brif Swyddfa gan awgrymu y dylai Aelodau Pwyllgor Llundain gael eu dewis yn ôl cyfartaledd aelodaeth. Penderfynwyd cynnal Cwrdd nesaf y Pwyllgor Gwaith yng Nghapel-y-Cwm. Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd y Prif Athro J. D. Jones, B.A., B.D., y Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin i draddodi Anerchiad yn y Cyfarfod Blynyddol. Croesawyd yr ymwelwyr i de ardderchog yn y Festri gan Aelodau Capel y Bryn. Diolchwyd yn gynnes iddynt gan Miss R. M. Evans, Miss Williams, Dolaugwyrddion a Mrs. Parke Davies, Y.H.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf, Gwasg Gomer, Llandysul.

Defnyddiau Da
Crefftwaith Da

Yr ydym heddiw yn cadw ein henw da am ddeunydd a chrefftwaith a adeiladwyd gennym yn ystod yr 90 mlynedd diwethaf. Yn y cyfnod hwn sefydlwyd 35 o ganghennau drwy Gymru a Gorllewin Lloegr i wasanaethu gwŷr a'u meibion.



HODGES AND SONS (CLOTHIERS) LTD.

WEDI EU TEILWRIO YNG NGHYMRU

The Llandyssul Agricultural Society Ltd.

LLANDYSSUL

Visit us before you buy your—

MANURES, FEEDING STUFFS, LIME, GRAIN, CORN, CONDIMENTS, SEEDS, HARDWARE, DRAPERY, GROCERY, CLOTHING, BOOTS AND SHOES, FURNITURE, ETC.

Deal at your own Society and thus save for yourself all middle profits

---

"Esplanade Cafe"

Proprietor—T. P. GRIFFITHS.

HIGH CLASS CONFECTIONER AND CATERER

MORNING COFFEE, LUNCHEONS AND HIGH TEAS

SMALL PARTIES CATERED FOR

"*Cefnogwch Undodwr*"

SEA FRONT : - : BARRY ISLAND

— COMMERCIAL AND GENERAL PRINTERS —

Within easy access to you if you reside in Glamorgan

Read the—

ABERDARE LEADER

(the paper which goes into every home in the Valley)

All enquiries—

PUGH & ROWLANDS, LTD.

ABERDARE LEADER OFFICES

ABERDARE

J. EDRYD STEPHENS & SONS

ELECTRICAL AND RADIO ENGINEERS

2A, BLUE STREET, CARMARTHEN

25 years experience in all classes of Electrical Undertakings

Recently installed in places of worship :—

FLUORESCENT AND ORDINARY LIGHTING

TUBULAR HEATERS

ORGAN BLOWERS

LIGHTING BY ELECTRIC MAINS AND BY PRIVATE PLANTS

Expert on FARM LIGHTING PLANTS

ENGINES, DYNAMOS, SWITCHBOARDS, MOTORS, COOKERS, WASHING MACHINES, REFRIGERATORS, ETC. ALWAYS IN STOCK

BEST MAKERS RADIO RECEIVERS ALWAYS IN STOCK

MODERN EQUIPMENT FOR RADIO REPAIRS

We employ an expert for every Job

FREE ADVICE AND ESTIMATES

The Shop for Value and Selection. Est. 1875.

E. R. DAVIES (L.S.O. Lond.) & SONS

Phone—3137

WATCHMAKERS

. . JEWELLERS . .

SILVERSMITHS

Private Room and Special Attention given to Engagement and Wedding Parties.

LARGE SELECTIONS OF CUPS AND MEDALS.

I, Wind Street

Llandyssul . . . . Cards.